Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam – Dydd Iau 13 Mai 2021, 10am
Nodiadau Gweithredu

	Yn bresennol:
	Sue Price, Cadeirydd (Coleg Cambria) Cynghorydd Hugh Jones, Dirprwy Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) Cynghorydd Mark Pritchard (CBSW) Lyndsey Rawlinson (Cyfoeth Naturiol Cymru) Karen Evans (CBSW) John Gallanders (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam) Nina Ruddle (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam) Stuart Millington (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) Rob Smith (BIP Betsi Cadwaladr) Nick Evans (Heddlu Gogledd Cymru) Amanda Aldridge (Yr Adran Gwaith a Phensiynau) Ian Bancroft (CBSW) Helen Douglas (Heddlu Gogledd Cymru) Michael Cantwell (CBSW)
	Siaradwyr Alwena Watkin, Pennaeth Rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru Tricia Bridgewater, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Jo Spender, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Donna Dickenson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Caroline Bennett, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Bev Carroll, Cyngor Sir y Fflint Natalie Edwards, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

1	Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar.	
	Amlinellodd Alwena Watkin raglen integreiddio'r blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru, a chyflwynodd Tricia Bridgewater y strwythur partneriaeth arfaethedig er mwyn galluogi prosiect ar gyfer Wrecsam.	AW/TB
	Holwyd a fyddai'r cyllid hwn yn gyllid tymor byr, oherwydd mae'n effeithio ar recriwtio a chadw staff. Mae'n gyllid tymor byr, ond fel un o feysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid, mae'n debygol o gael ei ymestyn yn flynyddol, ac mae prosiectau llwyddiannus eraill ar draws Cymru wedi bod yn rhedeg ers nifer o flynyddoedd.	
	Cytunwyd: • Sefydlu Prosiect Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn Wrecsam	TB

	• Gwneud cais am Gyllid Llwybr Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar • Rheoli a chefnogi'r prosiect gan y Cyngor • Cydweithio gyda Sir y Fflint a siroedd eraill lle bo'n briodol • Adrodd cynnydd blynyddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
2	Dipyn i'w Ofyn (The Big Ask) – Recriwtio a chadw gofalwyr maeth	
	Cyflwynodd Jo Spender ymgyrch Dipyn i'w Ofyn y Cyngor sy'n ceisio cynyddu nifer ac amrywiaeth gofalwyr maeth er mwyn gwella'r canlyniadau i blant lleol.	
	Cytunwyd: • Rhannu'r cyflwyniad fel bod partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â Jo yn uniongyrchol i drafod sut gallai eu sefydliad neu eu gweithwyr gefnogi Dipyn i'w Ofyn. • Rhannu newyddlen/gohebiaeth Dipyn i'w Ofyn dros yr haf er mwyn i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu rhannu â'u sefydliadau. • Creu addewid Dipyn i'w Ofyn i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei lofnodi cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.	MC MC/JS MC/JS
3	Plant a phobl ifanc: Bywyd ym Mlwyddyn Covid	
	Cyflwynodd Donna Dickenson, Caroline Bennett a Bev Carroll ganfyddiadau a oedd yn dangos effaith COVID ar bobl ifanc, yn enwedig o ran iechyd meddwl.	
4	Prifysgol y Plant	
	Rhoddodd Natalie Edwards ddiweddariad i'r cyfarfod am gynnydd o ran sefydlu prifysgol y plant. Caiff diweddariad llawn ei roi i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn galluogi partneriaid i ymgysylltu â'r prosiect peilot dechreuol a thrafod ei ganlyniad, a fydd yn canolbwyntio ar nifer fach o ysgolion ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, o fis Medi 2021.	
5	Camau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	
	• Cytunwyd ar gynllun gweithredu â sgôr COG a'r llawlyfr wedi'i ddiweddaru.	
	Rhoddodd NR ddiweddariad i'r cyfarfod am gynnydd da sy'n cael ei wneud ar asesiad/ymgysylltiad lles gan y grŵp swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, ar ddatblygu fframwaith rhanbarthol a gaiff ei ddarparu'n lleol. • Bydd tîm Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cysylltu dros yr haf er mwyn cael syniadau / data / mewnwelediad partneriaid y Bwrdd, gyda'r bwriad o greu asesiad erbyn mis Medi. Bydd hyn yn llywio ein proses o gynllunio lles fel Bwrdd o 2022, gan alinio â dadansoddiad yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, a gaiff ei greu erbyn yr hydref.	NR/MC
	Mae Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, wedi mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn 2018 a 2019, a bydd yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref 2021.	MC

	Bydd nifer o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfarfod â phwyllgor craffu CBSW ar 17 Mehefin 2021 er mwyn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer trafod adroddiad blynyddol 19/20.	JG/IB/ KE/ (MC)
	Bydd gwaith yn dechrau ar adroddiad blynyddol y Bwrdd 20/21 ym mis Mehefin 2021. Bydd hyn yn cwmpasu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r gwaith adfer ar y cyd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint.	MC/Pawb
	Unrhyw Fater Arall	
	Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam wedi gwneud gwaith ymchwil i effaith COVID ar wirfoddoli, a gaiff ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.	JG
	Cynhelir trafodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y cyfarfod nesaf.	JG
	Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol	
	• Pwyllgor Craffu CBSW – 17 Mehefin 2021 • Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd – 2pm, 30 Medi 2021 – cynllunio gweithredu ar gyfer adfer • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam – 4pm, dydd Iau 7 Hydref 2021	
	Cysylltwch â sustainability@wrexham.gov.uk os hoffech ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r camau gweithredu.	